

Hawdd ei Ddeall

# Adroddiad blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent

Beth wnaethom ni yn 2023 i 2024

Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent – Adroddiad blynyddol 23-24'**.

Medi 2024

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch chi dal angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Gallai geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd i'w deall. Gallwch wirio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen XX**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent**. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch:

E-bost:  
GwentRegionalPartnershipBoard@torfaen.gov.uk

Ffôn: 01495 761691

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan [Hawdd ei Ddeall Cymru](#) gan ddefnyddio **Photosymbols**. [I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.](#)

[Rhif Trwydded Photosymbols 403527247.](#)

## Cynnwys

Amdanom ni .....	5
Am yr adroddiad hwn .....	7
Ein gwaith yn 2023 i 2024.....	8
<b>Y Bartneriaeth Strategol Oedolion.....</b>	<b>8</b>
<b>Partneriaeth Strategol Gofalwyr .....</b>	<b>11</b>
<b>Partneriaeth Strategol Plant a Theuluoedd.....</b>	<b>13</b>
<b>Partneriaeth Strategol Dementia .....</b>	<b>16</b>
<b>Partneriaeth Strategol Iechyd a Thai.....</b>	<b>18</b>
<b>Partneriaeth Strategol Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu:.....</b>	<b>20</b>
<b>Partneriaeth Strategol Awtistiaeth a Niwroamrywiaeth</b>	<b>24</b>
Meysydd gwaith eraill .....	27
Gweithio gyda'n gilydd .....	33
Beth sy'n digwydd nesaf .....	36
Geiriau anodd.....	37



# Amdanom ni

Ni yw **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent**.

Rydym ni am wella bywydau pobl yng Ngwent. Rydym ni eisiau:

- Gwella gofal a chymorth
- Gwell iechyd a **lles**

Mae **lles** yn golygu teimlo'n hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda bywyd.

- Darparu gofal a chefnogaeth gydlynol, sy'n **canolbwyntio ar yr unigolyn**. Mae **canolbwyntio ar y person** yn golygu canolbwyntio ar yr hyn mae pob person ei eisiau a'i angen.

Rydym ni'n gweithio gyda llawer o bartneriaid ar ein bwrdd. Rydym ni sicrhau ein bod yn rhannu ein hadnoddau a'n sgiliau yn y ffyrdd gorau.

Rydym ni hefyd yn sicrhau ein bod ni'n gweithio'n agos gyda sefydliadau, rhwydweithiau a fforymau eraill.



# Am yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r gwaith a wnaethom yn 2023 i 2024.

Fe wnaethom **Gynllun Ardal yn 2023**.

Roedd y cynllun hwn yn seiliedig ar anghenion pobl Gwent.

Er mwyn cyflawni'r nodau yn ein Cynllun Ardal, fe wnaethom sefydlu **7 Partneriaeth Strategol**. Y rhain yw:

- Partneriaeth Strategol Oedolion
- Partneriaeth Strategol Gofalwyr
- Partneriaeth Strategol Plant a Theuluoedd
- Partneriaeth Strategol Dementia
- Partneriaeth Strategol Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol
- Partneriaeth Strategol Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu
- Partneriaeth Strategol Awtistiaeth a Niwrowahaniaeth

# Ein gwaith yn 2023 i 2024

## Y Bartneriaeth Strategol Oedolion

### Beth rydyn ni eisiau ei wneud:

- Gwella **Iles**
- Cefnogi pobl hŷn yn y cartref.
- Lleihau rhestrau aros am gymorth, apwyntiadau a thriniaethau meddygol.

### Beth wnaethom ni

Fe wnaethom weithio gyda chartrefi gofal a darparwyr gofal lleol. Sicrhau bod gwasanaethau'n gryf ac yn parhau i wella.

Fe wnaeth y gwasanaeth **Cysylltwyr Cymunedol** helpu pobl i ddod o hyd i wybodaeth a chefnogaeth yn eu cymunedau lleol. Mae cysylltwyr cymunedol yng Nghaerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent a Thorfaen.

Fe wnaeth y gwasanaeth **Cynllun Car Cymunedol a Chyfeillio** helpu i wneud y canlynol:



- cefnogi pobl sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at drafnidiaeth
- a helpu pobl i gadw mewn cysylltiad ag eraill.

Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn pentrefi. Mae'r cynllun yn cysylltu pobl sy'n unig ac yn ynysig.

Mae **ynysig** yn golygu pan fydd rhywun ar ei ben ei hun a ddim yn dod i gysylltiad â phobl eraill.

Cefnogwyd dros 60 mil o bobl drwy'r **rhaglen Gartref o'r Ysbyty**. Mae'r rhaglen yn cefnogi pobl wrth iddynt ddychwelyd adref o'r ysbyty i gefnogi adferiad.

Mae 4 **man SMART** wedi eu sefydlu ym Mlaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd, a Thorfaen.

Mae **mannau SMART** yn lleoedd lle gall pobl a staff roi cynnig ar gynhyrchion technoleg sydd wedi'u cynllunio i wella gofal a chymorth. Bydd hyn yn helpu pobl i gadw'n iach gartref yn hirach.



# Partneriaeth Strategol Gofalwyr

## Beth rydyn ni eisiau ei wneud:

- Helpu gofalwyr di-dâl drwy roi seibiannau, gwybodaeth a chefnogaeth iddynt.
- Gwneud bywyd yn well i ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc.

## Beth wnaethom ni

Fe wnaeth ein gwasanaeth **Hwb Gofalwyr a Model Lloerennau** ddarparu cymorth, gwybodaeth a chyngor i ofalwyr di-dâl yn y gymuned

Defnyddiodd dros 1,500 o ofalwyr y gwasanaeth.

Yn 2023, rhoddwyd 59 o **ddyfeisiau HUG** i ofalwyr di-dâl yng Ngwent. Mae **HUG** yn ddyfeisiau fel teganau meddal. Maen nhw'n rhoi cysur i bobl sy'n byw gyda **dementia**.

Mae **dementia** yn salwch sy'n effeithio ar yr ymennydd. Mae'n ei gwneud hi'n anodd cofio, meddwl a gwneud pethau.

Mae gan 19 o wasanaethau ac 1 cyflogwr statws sy'n Ystyriol o Ofalwyr. Mae hyn yn golygu gwneud gweithleoedd yn well i ofalwyr.

Fe wnaeth 89 o ysgolion gymryd rhan yn y **Rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion**. Cafodd 562 o ofalwyr ifanc gefnogaeth.

Ers mis Ebrill 2023, mae 579 o bobl wedi cael hyfforddiant ar ofalwyr.

Cafodd 433 o ofalwyr grantiau bach drwy'r Cynllun Grantiau Bach.

Crëwyd prosiectau i helpu gofalwyr gyda **rhyddhau o'r ysbyty**.

**Rhyddhau o'r ysbyty** yw'r broses sy'n digwydd pan fydd claf yn gadael yr ysbyty.

Cafodd mwy na 3,000 o ofalwyr seibiant byr o'u rôl gofalu.

Roedd prosiectau'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i dros 3,000 o ofalwyr.

Mae gennym ni un **Hyrwyddwr Rhwydwaith Dinasyddion Gwent** sy'n ofalwr di-dâl. Mae gofalwyr di-dâl yn rhan o'r Bartneriaeth Strategol Gofalwyr. Mae'n rhoi cyfle i ofalwyr ddweud eu dweud.

## **Partneriaeth Strategol Plant a Theuluoedd**

### **Beth rydyn ni eisiau ei wneud:**

- Helpu plant gydag **anghenion cymhleth**. Mae hyn yn golygu bod angen llawer o gefnogaeth arnynt.
- Cefnogi iechyd meddwl a **lles**.

### **Beth wnaethom ni**

Rydym ni'n creu cartref 4 ystafell wely i blant. Mae'n darparu lle diogel i blant tra bod eu teuluoedd yn cael help i edrych ar y cynllun gofal tymor hir gorau.

Rydym ni wedi gweithio gyda rhieni, plant a sefydliadau i wella gwasanaethau **Niwroddatblygiadol** i blant a phobl ifanc.

Mae **Niwroamrywiaeth** yn golygu bod ymennydd pobl yn gweithio mewn ffordd wahanol i eraill. Fel Awtistiaeth ac ADHD. Mae gwasanaethau

Mae 3 chanolfan yng Ngwent sy'n darparu cwnsela, gweithdai a therapi i blant a gofalwyr.

Mae'r tîm **Gwasanaethau Integredig ar gyfer Plant ag Anghenion Ychwanegol (ISCAN)** yn cefnogi plant ag anghenion ychwanegol.

Maen nhw'n cynnal cyfarfodydd gyda gweithwyr iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. I sicrhau bod pob gwasanaeth a ddefnyddir gan berson yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Mae'r **Tîm Ymyrraeth Teulu** yn defnyddio gwasanaeth seicoleg glinigol i gynnig cymorth iechyd meddwl cynnar. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael ar draws Gwent.

Mae'r **Prosiect Platfform 4YP** yn helpu pobl ifanc 14 i 18 mlwydd oed i wneud y canlynol:

- cymryd rhan yn y gymuned
- a chael cefnogaeth.

Rydym ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth am

**NEST/NYTH.** Mae **NEST/NYTH** yn offeryn cynllunio ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Ei nod yw gwella gwasanaethau iechyd meddwl a **lles** i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Rydym ni'n gweithio gyda'r Fforwm Ieuencid Rhanbarthol ar ymgyrch iechyd meddwl. Roedd yr ymgyrch hon yn ganlyniad i'r arolwg o'r enw Make Your Mark.

# Partneriaeth Strategol Dementia

- **Yr hyn yr ydym am ei wneud:** Helpu pobl sy'n byw gyda **dementia** a'u gofalwyr i gael bywydau gwell

## Beth wnaethom ni

Mae ein bwrdd iechyd yn dilyn y **Siarter Ysbyty Ystyriol o Ddementia** ar gyfer Cymru. Mae'r **Siarter Ysbyty Ystyriol o Ddementia Gyfeillgar** yn ganllaw i wella gofal i bobl sydd â **dementia yn yr ysbyty**.

Cawsom adborth gan y cleifion am eu profiadau.

Mae'r cynllun gweithredu **dementia** wedi'i ddiweddarau yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i bobl.

Rydym ni wedi bod yn gweithio ar y **Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan**.

Mae gwirfoddolwyr hyrwyddo **dementia** sy'n cynnig cymorth mewn ysbytai.



Mae ein **Rhwydwaith ystyriol o ddementia** yn codi ymwybyddiaeth am **ddementia** ar draws Gwent.

Maen nhw'n gweithio gydag ysgolion, colegau a grwpiau cymunedol i ddarparu sesiynau **Cyfeillion Dementia**. Mae'r sesiynau hyn yn helpu pobl i ddysgu:

- mwy am **ddementia**,
- sut mae'n effeithio ar berson
- beth allwch chi ei wneud i helpu pobl sy'n cael eu heffeithio gan **ddementia**

Mae'r **Rhwydwaith Ystyriol o Ddementia** yn casglu barn pobl. Mae pobl sydd â **dementia** a'u gofalwyr yn ymwneud â dweud sut mae gwasanaethau gofal **dementia** yn cael eu rhedeg.

Rydym ni'n gweithio i gyrraedd grwpiau o bobl sydd weithiau'n gallu cael eu gadael allan o gynllunio a phenderfyniadau. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall beth sy'n bwysig iddyn nhw. Sut i wella gofal **dementia** i bawb.

Fe wnaeth Gwelliant Cymru lansio ymgyrch o'r enw **Ymgyrch Cymru'n Gwranddo**. Nod yr

ymgyrch yw darganfod beth sy'n bwysig i ofal a chefnogaeth **dementia**.

## **Partneriaeth Strategol Iechyd a Thai**

### **Beth rydyn ni eisiau ei wneud:**

- Gweithio gyda sefydliadau i wella tai.
- Sicrhau bod **Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl** yn cael eu defnyddio yn y ffyrdd gorau. Mae **Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl** yn helpu tuag at gostau gwneud newidiadau i'ch cartref.
- Gweithio gyda phartneriaid i helpu pobl ddigartref.

### **Beth wnaethom ni**

Rydym ni'n paratoi ar gyfer rhaglen 4 blynedd o'r enw **Cronfa Integredig Rhanbarthol - Cronfa Tai gyda Gofal**. Bydd y rhaglen hon yn gwneud y canlynol:

- Cefnogi tai i bobl sydd angen llawer o gefnogaeth
- Darparu **gofal canolraddol**. Mae hyn yn golygu cefnogaeth am gyfnod byr i'ch helpu i wella a bod yn annibynnol

- Helpu i wneud newidiadau i gartrefi i ddiwallu anghenion pobl

Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen sy'n rhedeg y prosiect **Ysbyty i Gartrefi Iachach**. Mae'r prosiect hwn yn helpu pobl i adael yr ysbyty yn gynt drwy wneud newidiadau i'w cartrefi.

Rydym ni'n darparu cymorth i sefydliadau eraill i'w helpu i atal digartrefedd a helpu pobl i ddod o hyd i dai a'u cadw. Rydym ni hefyd yn cefnogi dioddefwyr trais ledled Gwent drwy ddefnyddio grant i ariannu cymorth lloches.

Fe wnaethom ddatblygu hyfforddiant rhad ac am ddim ar-lein am **gamddefnyddio sylweddau** ar gyfer staff tai. Mae **camddefnyddio sylweddau** yn golygu cymryd cyffuriau neu yfed gormod o alcohol.

Mae tai yn rhan fawr o **les**. Fe wnaethom ni ddechrau'r Grŵp **Panel Ymgysylltu a Dysgu Tai (HELP)**.

Mae'r Grŵp **HELP** yn gadael i bobl rannu eu profiadau tai. Maen nhw'n nodi lle mae angen gwella gwasanaethau, a beth sy'n gweithio'n dda.

## **Partneriaeth Strategol Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu:**

### **Beth rydyn ni eisiau ei wneud:**

- Gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl.
- Gwella **lles** ac iechyd meddwl i oedolion a phlant.
- Helpu pobl ag anableddau dysgu i fyw'n annibynnol.

### **Beth wnaethom ni**

Rydym ni'n cynnal llawer o raglenni a phrosiectau i wella **lles meddwl**.

**Lles Meddwl** yw pan fyddwch chi'n hapus ac yn gyfforddus ynoch chi'ch hun. Rydych chi'n gweld eich bod chi'n gallu ymdopi'n dda.

Nod **Rhaglen Haen Sylfaen Lles Emosiynol a Meddyliol Gwent** yw gwella mynediad at

adnoddau a all gefnogi eich iechyd meddwl.

Mae **Melo Cymru** yn wefan sy'n darparu adnoddau hunangymorth ar gyfer **lles meddwl**.

Mae'n cael ei ddefnyddio gan lawer o sefydliadau fel GIG 111. Mae yna sôn am sicrhau bod Melo ar gael ar gyfer Cymru gyfan.

Mae **Rhaglen Hyfforddi Connect 5 Gwent** wedi'i gynllunio i helpu **gweithwyr rheng flaen** siarad am iechyd meddwl. Er enghraifft, staff mewn iechyd, gofal, yr heddlu a'r gwasanaethau tân.

Mae gennym ni gefnogaeth arbenigol rhad ac am ddim i bobl sy'n cael eu heffeithio gan **hunanladdiad**.

**Hunanladdiad** yw beth rydym ni'n ei ddweud pan fydd person yn dod â'i fywyd ei hun i ben.

Mae sefydliadau sy'n darparu cefnogaeth fel:

- **2wish** - yn cefnogi pobl sydd wedi colli rhywun annwyl yn sydyn, gan gynnwys trwy **hunanladdiad** o dan 25 mlwydd oed.

- **Sefydliad Jacob Abraham** - Ers mis Ebrill 2023, maen nhw wedi darparu cefnogaeth i bobl sydd wedi'u heffeithio gan **hunanladdiad** rhywun, dros 25 mlwydd oed.

Ers 2021, mae dros 100 o gyrsiau hyfforddi **Cymorth Cyntaf Hunanladdiad** rhad ac am ddim wedi'u cynnig yng Ngwent. Mae'r hyfforddiant hwn yn helpu gweithwyr proffesiynol, gofalwyr a gwirfoddolwyr i adnabod ac ymateb i feddyliau am **hunanladdiad**.

Mae cyrsiau ar-lein rhad ac am ddim **Cymorth Cyntaf Hunanladdiad gan Zero Suicide Alliance**. Mae'r rhain ar gael ar wefan Melo.

Rydym ni'n gweithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu. Rydym ni wedi creu **Grŵp Llywio Cydgynhyrchu** i gynnwys pobl wrth wneud penderfyniadau fel partneriaid cyfartal.

Mae hefyd yn helpu pobl sydd â phrofiad byw i ddweud eu dweud.



# Partneriaeth Strategol Awtistiaeth a Niwroamrywiaeth

## Beth rydyn ni eisiau ei wneud:

- Darparu asesiadau cyflymach a gwell mynediad at wasanaethau.
- Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o **Niwroamrywiaeth**.
- Helpu pobl i fyw bywydau annibynnol gyda mwy o gyfleoedd am waith a hyfforddiant â thâl.

## Beth wnaethom ni

Mae'r bartneriaeth hon yn cael ei chyd-gadeirio gan bobl sydd â phrofiad byw a gofalwyr.

Rydym ni'n edrych ar sut mae'r **Cod Ymarfer Awtistiaeth** yn gweithio yng Ngwent. Dyma ganllaw sy'n dweud sut y dylid darparu gwasanaethau Awtistiaeth.

Mae ein partneriaid hefyd yn goruchwylio'r **Cronfa Gwella Niwrowahaniaeth**. Mae hwn yn arian i wella cefnogaeth i blant a theuluoedd.



Mae cyllid wedi'i ddarparu i ABUHB i gefnogi mwy o asesiadau i helpu plant a theuluoedd.

Cafodd 5 sefydliad trydydd sector lleol arian o'r gronfa hon yn 2023 i 2024 i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth i blant a theuluoedd.

Cynigiwyd cefnogaeth i rieni a gofalwyr. Roedd boreau coffi i adeiladu cefnogaeth gymunedol.

Cynhaliwyd 19 diwrnod hyfforddiant a 5 digwyddiad i wella ymwybyddiaeth awtistiaeth ymhlith **staff rheng flaen**.

Aeth 387 o bobl i'r digwyddiadau hyn, gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd a'r heddlu.

O fis Gorffennaf 2023, daeth gwasanaethau **ADHD** i oedolion yn wasanaethau **annibynnol** - i gynnig eu hasesiad a'u triniaeth eu hunain.

Mae **ADHD** yn sefyll am **Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd**.

Mae'n gyflwr meddygol. Mae pobl ag ADHD yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio neu reoli'r hyn maen nhw'n ei wneud. Mae'n gallu gwneud tasgau bob dydd yn anodd.

Mae hyn yn golygu y gallai pobl gael atgyfeiriadau uniongyrchol ym mis Ionawr 2024. Doedd dim angen mynd drwy'r fîm iechyd meddwl cymunedol yn gyntaf. Fe wnaeth hyn y broses yn gyflymach a lleihau amseroedd aros.

Cymerodd gweithwyr proffesiynol ran mewn hyfforddiant a chynllunio ar gyfer gwneud asesiadau ar y cyd.

Rydym ni'n gweithio i wella'r gefnogaeth i blant a theuluoedd sy'n aros am asesiadau.

# Meysydd gwaith eraill

## Rhwydwaith Dinasyddion Gwent

Ar ôl COVID, dechreuodd Rhwydwaith Dinasyddion Gwent gynnal cyfarfodydd yn bersonol ac ar-lein.

Erbyn hyn, mae gan y rhwydwaith dros 100 o aelodau. Mae aelodau'n cael diweddariadau wythnosol gyda gwybodaeth a chyingor. Rydym ni'n parhau i ehangu'r rhwydwaith.

## Ciniawau Cydgynhyrchu

Rydym ni'n cynllunio digwyddiadau personol o'r enw **Ciniawau Cydgynhyrchu** ym mhob ardal awdurdod lleol.

Mae'r digwyddiadau hyn yn rhoi cyfle i ni gwrdd â phobl a chydweithio yn well.

Mae grŵp o bobl yn helpu i gynllunio'r digwyddiadau hyn. Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ym mis Chwefror 2024. Ar ôl pob digwyddiad, bydd aelodau'n cael cylchlythyr gyda phwyntiau allweddol a'r camau nesaf.

## **Digwyddiad gwneud penderfyniadau gyda'n gilydd**

Ym mis Mai 2024, cawsom ddigwyddiad yng Nghasnewydd. Fe wnaeth y digwyddiad ddangos pa mor bwysig yw gwneud penderfyniadau gyda'n gilydd.

Fe wnaeth dros 150 o bobl o bob rhan o Went fynychu, gan gynnwys sefydliadau. Mae pobl yn siarad am yr hyn sy'n gweithio'n dda. A lle mae angen gwella gwasanaethau.

## **Dewis**

Mae Dewis yn wefan y gall pobl ei defnyddio i ddod o hyd i wybodaeth a chynghor am [lles](#).

Mae mwy o bobl bellach yn defnyddio Dewis i chwilio am wybodaeth ac adnoddau.

## **Rhwydwaith Gwent sy'n Deall Dementia**

Erbyn hyn mae dros 270 o aelodau yn y rhwydwaith. Gan gynnwys gweithwyr proffesiynol, gwirfoddolwyr, gofalwyr a phobl sy'n byw gyda **dementia**.

Aeth 55 o aelodau i fore coffi **Gwent sy'n Deall Dementia** yn 2023.

## **Consortiwm y Gweithlu a'r Coleg**

Roedd cynllun newydd i helpu myfyrwyr i ddod o hyd i waith yn yr awdurdod lleol.

Roedd 92 o geisiadau am leoliadau gwaith yn 2023 i 2024.

Rydym ni'n gweithio gyda Choleg Gwent i hyrwyddo gyrfaedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

## **Cwrs Mynediad i Feddygaeth**

Fe wnaethom ddatblygu cwrs newydd gyda'r Athro Paul Edwards o'r enw **Mynediad i Feddygaeth**. Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i gefnogi myfyrwyr sy'n wynebu rhwystrau rhag mynd i yrfaedd mewn meddygaeth.

Dechreuodd y myfyrwyr cyntaf ym mis Medi 2023.

## **Rhaglen Lleoliadau Clinigol**

Dechreuodd y **Rhaglen Lleoliadau Clinigol** ym mis Medi 2022.

Mae'n rhoi 100 awr o brofiad gwaith i fyfyrwyr ail flwyddyn mewn ysbytai. Eleni, cafodd 38 o fyfyrwyr o Goleg Gwent leoliadau gwaith.

## **Gofal Micro**

Mae'r rhaglen hon yn helpu pobl leol i ddod yn weithwyr gofal hunangyflogedig. Mae 25 o ficro-ofalwyr wedi'u rhestru yng Nghyfeirlyfr Gofal Micro Sir Fynwy.

Rydym ni hefyd wedi derbyn cyllid i greu porth ar-lein. Bydd y porth hwn yn gwneud y broses yn haws ac yn well.

Ym mis Gorffennaf 2023, fe wnaethom ni ddechrau **Cymuned Ymarfer Gofal Micro yng Nghymru**. Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod bob 2 fis.

## **AskSARA**

Mae mwy o bobl yn cael help drwy  
**AskSARA.**

Canllaw ar-lein yw hwn sy'n darparu  
gwybodaeth am gynhyrchion ac offer i  
wneud bywyd bob dydd yn haws.

## **Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF)**

Rydym ni'n defnyddio arian gan  
Lywodraeth Cymru i helpu i wella  
gwasanaethau i bobl yng Ngwent. Yr enw  
ar hwn yw'r **Gronfa Integreiddio  
Rhanbarthol (RIF).**

Mae **RIF** yn ariannu rhaglenni a phrosiectau  
i helpu pobl ledled Gwent sydd ag  
anghenion iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r cyllid wedi helpu i wella  
gwasanaethau gofal ar draws Cymru.

## **Rhaglen Gyfalaf 2023-2024**

Mae cyllid y Rhaglen Gyfalaf yn helpu i  
adeiladu a thrawsnewid gofodau ac  
adeiladau, fel y gall cymunedau wneud y  
gorau ohonynt. Rydym ni am ddarparu  
gofal yn nes at adref ac mae Rhaglen  
Gyfalaf Gwent yn ariannu sawl prosiect

mawr a bach i helpu i gefnogi'r gwaith hwn.

## Technoleg gynorthwyol

Mae **technoleg gynorthwyol** yn offer sy'n helpu pobl i wneud pethau y gallent fod yn eu cael yn anodd. Pethau fel: Cadeiriau olwyn i helpu pobl symud o gwmpas, cymhorthion clyw i wneud synau'n uwch, darllenwyr sgrin i ddarllen testun yn uchel.

Mae **Rhaglen Technoleg Gynorthwyol RPB Gwent** yn defnyddio technoleg i helpu pobl gyda'r canlynol:

- Gwella **lles**
- a bod yn fwy annibynnol.

## Cyfathrebu

Rydym ni'n gweithio ar ffyrdd gwell o siarad â phobl a'u cynnwys.

Rydym ni wedi diweddaru ein gwefan.

Rydym ni'n gweithio'n galed i sicrhau bod ein gwefan yn hawdd ei defnyddio.



Rydym ni wedi ychwanegu cefnogaeth ar gyfer lleferydd, darllen a chyfieithu.

Rydym ni'n rhannu gwybodaeth am ein gwaith ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae'n ein helpu i gael barn pobl Gwent.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym ni wedi cael mwy o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol.

## **Gweithio gyda'n gilydd**

### **Fforymau**

Rydym ni'n gweithio gyda sefydliadau eraill i ddefnyddio'r **Pecyn Cymorth Fforwm Gwerth Cymdeithasol**.

Mae'r **Pecyn Cymorth** yn ein helpu i weithio gyda'n gilydd i ddarparu gwasanaethau sy'n helpu i wella bywydau pobl.

Rydym ni am gefnogi busnesau sy'n meddwl am anghenion pobl a'r gymuned.

Rydym ni'n dod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio arian i gefnogi gwasanaethau gwirfoddol.

Mae gennym ni fforymau i gefnogi darparwyr gofal a sefydliadau gwirfoddol. Er enghraifft:

- Fforwm Gofal Cartref Rhanbarthol Gwent
- Fforwm Ymgysylltu Cartrefi Gofal Gwent
- Fforwm Trydydd Sector Gwent

## **Hwb Cydlynu Arloesedd Rhanbarthol Gwent**

Mae **Hwb Cydlynu Arloesedd Rhanbarthol Gwent** wedi'i sefydlu i wella sut mae iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd.

Lansiwyd yr hwb gyda gwefan i helpu pobl i ddysgu amdano.

Mewn 3 mis, mae'r hwb wedi ariannu 9  
prosiect i helpu i wella gwasanaethau ym  
maes iechyd a gofal cymdeithasol.

# Beth sy'n digwydd nesaf

Byddwn yn adolygu ein cynllun ardal.  
Byddwn yn parhau i weithio ar hyn tan  
2024-2025.

## Byddwn ni'n gwneud y canlynol:

- Cynnwys pobl wrth gynllunio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Gwella'r ffordd rydym ni'n mesur ein gwaith.
- Lleihau'r amser mae pobl hŷn yn aros yn yr ysbyty. Eu helpu nhw i ddychwelyd adref yn ddiogel gyda'r gefnogaeth gywir.
- Cefnogi plant sydd ag anghenion cymorth mawr a'r rhai sydd mewn gofal.
- Dod o hyd i ffyrdd newydd o helpu pobl sy'n aros am asesiadau awtistiaeth neu **Niwroddatblygiadol** a chymorth gyda diagnosis.
- Parhau i helpu pobl gyda **dementia** a'u gofalwyr.
- Parhau i ddod o hyd i ffyrdd o ddatrys prinder staff mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

- Gweithio gyda phartneriaid i leihau **teimlo'n ynysig** ac unigrwydd a helpu pobl i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys.
- Cefnogi gofalwyr sydd angen cymryd seibiannau.
- Parhau i weithio gyda sefydliadau eraill mewn partneriaeth.

## Geiriau anodd

### Technolegau cynorthwyol

Mae technolegau cynorthwyol yn offer sy'n helpu pobl i wneud pethau a allai fod yn anodd iddyn nhw. Pethau fel: Cadeiriau olwyn i helpu pobl symud o gwmpas, cymhorthion clyw i wneud synau'n uwch, darllenwyr sgrin i ddarllen testun yn uchel.

### ADHD

Mae ADHD yn sefyll am Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd. Mae'n gyflwr meddygol. Mae pobl ag ADHD yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio neu reoli'r hyn maen nhw'n ei wneud. Mae'n gallu gwneud tasgau bob dydd yn anodd.

### Dementia

Mae dementia yn salwch sy'n effeithio ar yr ymennydd. Mae'n ei gwneud hi'n anodd cofio, meddwl a gwneud pethau.

## **Rhyddhau o'r ysbyty**

Rhyddhau o'r ysbyty yw'r broses sy'n digwydd pan fydd claf yn gadael yr ysbyty.

## **Ynysig**

Mae ynysig yn golygu pan fydd rhywun ar ei ben ei hun a ddim yn dod i gysylltiad â phobl eraill.

## **Lles Meddwl**

Lles Meddwl yw pan fyddwch chi'n hapus ac yn gyfforddus ynoch chi'ch hun. Rydych chi'n gweld eich bod chi'n gallu ymdopi'n dda.

## **Niwroamrywiol a Niwroddatblygiadol**

Mae niwroamrywiol yn golygu pobl ag ymennydd sy'n gweithio mewn ffordd wahanol i eraill. Fel Awtistiaeth ac ADHD. Mae gwasanaethau Niwroddatblygiadol yn cefnogi pobl Niwroamrywiol.

## **Hunanladdiad**

Hunanladdiad yw beth rydym ni'n ei ddweud pan fydd person yn dod â'i fywyd ei hun i ben.

## **Lles**

Mae lles yn golygu teimlo'n hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda bywyd.